Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 04.02.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# RECRIWTIO: Ffair swyddi lletygarwch Gwaith Gwynedd – diweddariad

Bydd menter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd, mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), yn cynnal ffeiriau swyddi mewn person ar gyfer y sector lletygarwch yn y lleoliadau canlynol:

- 15 Chwefror 2022 10:00am-3:00pm: Market Hall,Caernarfon
- 17 Chwefror 2022 10:00am-3:00pm: Y Ganolfan, Porthmadog
- 2 Mawrth 2022 10:00am-3:00pm: VENU, Pwllheli

Mae llefydd yn brin, felly os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru cyn gynted â phosib.

Gallwch hefyd hysbysebu ar Hysbysfwrdd Swyddi Gwaith Gwynedd trwy fynd i:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

## AROLWG: Addysg a'r economi – cwrdd ag anghenion sgiliau busnesau Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd eisiau deall yn well anghenion sgiliau busnesau lleol, presennol ac at y dyfodol, a meddwl sut gall Ysgolion Uwchradd lleol baratoi eu disgyblion ar gyfer y byd gwaith. Helpwch, os gwelwch yn dda, drwy gymryd rhan mewn arolwg byr, a ddylai gymryd llai na 5 munud i'w gwblhau, ewch i:

https://www.surveymonkey.co.uk/r/7WP5YJS

## ARIANNU: Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru 3 yn agor i ymgeiswyr newydd

Mae trydedd rownd Cronfa Adfer Ddiwylliannol (CRF) Llywodraeth Cymru wedi agor ar gyfer theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, atyniadau treftadaeth, sefydliadau treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau annibynnol, llyfrgelloedd cymunedol ac annibynnol, orielau, sinemâu annibynnol, digwyddiadau, asiantaethau rheoli artistiaid, lleoliadau comedi a stiwdios ymarfer a recordio nad ydynt wedi derbyn cymorth o'r blaen o dan y gronfa. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/cronfa-adferiad-diwylliannol-cymru-cylch-3

## COVID-19: Canllawiau Lefel Rhybudd 0

Mae Cymru yn parhau i fod ar Lefel Rhybudd 0, gyda holl fusnesau'n gallu agor. Mae cynnal asesiad risg coronafeirws yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau, cyflogwyr a threfnwyr digwyddiadau, a rhaid gweithredu mesurau rhesymol i leihau'r risg o coronafeirws.

Am ganllawiau ar baratoi asesiad risg, ewch i:
https://llyw.cymru/asesiad-risg-covid-19-eiddo-cyhoeddus-gweithleoedd

Mae cardiau gweithredu mesurau rhesymol ar gyfer nifer o sectorau ar gael yn:
https://llyw.cymru/cardiau-gweithredu-mesurau-rhesymol-ar-gyfer-busnesau-sefydliadau-coronafeirws

Mae'r canllawiau diweddaraf Lefel Rhybudd 0 i fusnes ar gael ar:
https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-0-canllawiau-i-gyflogwyr-busnesau-sefydliadau

Hefyd, nodyn i'ch atgoffa y bydd y ddwy gronfa gymorth a weinyddir gan Gyngor Gwynedd ar gyfer busnesau lletygarwch, manwerthu, hamdden a thwristiaeth – a'u cadwyni cyflenwi – a effeithiwyd yn ddifrifol gan y cyfyngiadau diweddar yn parhau ar agor tan 5:00pm ar 14 Chwefror 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/CyfyngiadauRhagfyr2021

# CYFLE: Cyfleoedd Cadwyn Gyflenwi Niwclear

Gyda newidiadau yn strategaeth yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) (Mawrth 2021), mae disgwyl i'r gwaith ar safleoedd, megis Trawsfynydd, gynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd i ddod. I weld os all eich busnes fanteisio ar y cyfleoedd cadwyn cyflenwi, ewch i:

https://www.hwbmenter.cymru/cy/niwclear

# CEFNOGAETH: Cefnogaeth wedi'i ariannu i'r diwydiant amaeth – Gwasanaeth Cynghori

Mae Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio yn gallu cynnig cymorth wedi'w deilwra i fusnesau amaethyddol – ffermwyr a choedwigwyr – i gynyddu elw ac effeithlonrwydd, gyda hyd at 80% o gyllid ar gael i geisiadau unigol a 100% o gyllid ar gyfer ceisiadau grŵp. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/gwasanaeth-cynghori

## NEWYDDION: Newyddion Prifysgol Bangor am Ymgysylltu a Busnesau – Rhifyn y Gaeaf

Mae rhifyn y Gaeaf o Newyddion Prifysgol Bangor am Ymgysylltu a Busnesau ar gael, gydag eitemau am sut mae cwmnïau lleol wedi elwa o gefnogaeth y rhaglen Arweinyddiaeth ION a'r rhaglen Twf Busnes 20Twenty. Ewch i:

https://sway.office.com/3Cm4Y5Sh7WsiBCDv?ref=Link

## BREXIT: Defnyddio'r marc UKNI

Mae'r canllawiau diweddaraf yn esbonio sut i ddefnyddio'r marcio UKNI newydd ar gyfer cynhyrchion a osodir ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon i'w gweld ar:

https://www.gov.uk/guidance/using-the-ukni-marking

## RHWYDWEITHIO: Rhwydwaith Bwyd Busnesau Cymdeithasol 16 Chwefror 2022

Gwahoddir busnesau cymdeithasol a sefydliadau cymorth sy'n gweithio yn y sector bwyd i ddigwyddiad rhwydweithio ar 16 Chwefror 2022, 10:00am-11:00am, i glywed am redeg oergelloedd cymunedol, ailddosbarthu bwyd a bwydo'r gymuned. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i:

https://www.eventbrite.co.uk/e/food-network-for-social-businesses-rhwydwaith-bwyd-busnesau-cymdeithasol-tickets-251877962767

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru